**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 6 TACHWEDD 2025 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Nicola Jones, Janet Knott, Shan Rees, Elfyn Williams, Meinir James, Eifion Jones, Jenny Jones, Rheinallt Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas a Viv Davies.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 2il a 15fed Hydref 2025.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Green Gen –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd adroddiadau bod Green Gen wedi cael ei ddwyn i'r llys gan bartïon a dramgwyddwyd mewn perthynas â'r prosiectau hyn. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **FC29/4 Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Grid Cenedlaethol – Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog –** Derbyniwyd cadarnhad y byddai'r Grid Cenedlaethol yn dechrau eu Hymgynghoriad Cyn-ymgeisio yn fuan, gyda dyddiad a manylion pellach yn cael eu disgwyl. Nodwyd.
5. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
7. **Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2 –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad nad oes gan y Cyngor Sir y capasiti i ddelio â'r goeden sy'n rhwystro'r llwybr troed ar hyn o bryd. Nodwyd.
8. **Pont Rhydyronnen –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
9. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod apêl wedi'i chyflwyno yn erbyn gwrthod caniatâd cynllunio. Nodwyd.
10. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
11. **Pryderon ynglŷn â chyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd, Heol Bolahaul –** Cadarnhaodd yr Heddlu nad oedd y gyffordd yn bodloni'r meini

prawf ar gyfer gorfodi Gan Bwyll gan fod y cyflymder canran 85 y cant ar yr arolwg diweddaraf a gynhaliwyd yn 35.1 milltir yr awr. Nodwyd.

12. **Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau –** Roedd cofnodion y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ar 30ain Medi 2025 wedi'u dosbarthu. Rhoddodd y Cynghorydd Nicola Jones adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Tachwedd 2025. Nodwyd.
13. **Rhoddion a wnaed i Eisteddfod Llandyfaelog, Neuadd Gymunedol Llandyfaelog a Pharlys yr Ymennydd Cymru** – Derbyniwyd nodiadau diolch am roddion y Cyngor. Nodwyd.
14. **Glanhau Arwyddion ym Mhibwrlwyd a Chwmffrwd**
15. **Tyllau ger y palmant ym Mro Pedr**
16. **Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog** - Cadarnhaodd y Clerc fod pryderon wedi'u codi a bod ymateb yn cael ei ddisgwyl.
17. **Parc Solar Heol Ddu**

    Nododd y Cadeirydd ei diddorded. Nododd y Clerc ei wrthdaro fuddiannau.

    Nodwyd bod y Cyngor wedi cyfarfod ar 15fed Hydref a bod ymateb wedi'i gyhoeddi i'r datblygwyr.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
2. **Un Llais Cymru** – Dyddiadau hyfforddi mis Hydref. Derbyniwyd cadarnhad bod y Cynghorydd Jenny Jones wedi mynychu sesiwn ar Sgiliau Cadeirio. Nodwyd.
3. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Cylchlythyr Calon Tân. Nodwyd.
4. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** – Penodi Prif Gwnstabl newydd. Nodwyd.
5. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** – Ymgynghoriad - Rhannwch eich barn ar yr hyn sy'n eich helpu i fyw bywyd iachach. Nodwyd.
6. **Comisiynydd Pobl Hŷn** – Papur briffio – Gwneud Cymru yn Genedl o Gymunedau sy'n Gyfeillgar i Oedran. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cyflwyniad i Swyddog Addasiadau Arfordirol newydd y Cyngor. Nodwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Arolwg Rheoli Tir gan Bartneriaeth Natur Sir Caerfyrddin. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru** – Diweddariad gan dîm Prosiect Costau Byw. Nodwyd.
10. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth ar gweminarau gwrth-hiliaeth. Nodwyd.
11. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** – Bwletin. Nodwyd.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cyfleoedd ariannu. Nodwyd.
13. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – PL/10002. Cadarnhad, oherwydd natur y cais, na fyddai'r Cyngor Cymuned yn cael ei ymgynghori ar yr Hysbysiad Blaenorol: Adeiladu (amaethyddol/coedwigaeth) ar gyfer sied storio amaethyddol (18.288 x 9.144m) yng Nglannant, Idole, Caerfyrddin, SA32 8DB. Nodwyd.
14. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad am gau ffordd frys yr U2219, Upland Arms ar 23ain Hydref 2025 rhwng 9.30yb – 15.30yp. Nodwyd.
15. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau hyfforddi Hydref – Rhagfyr. Nodwyd.

16. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
17. **Llywodraeth Cymru** – Cynhadledd Ystadau Cymru 6ed Tachwedd 2025. Nodwyd.
18. **Un Llais Cymru** – Gweithdai Adroddiad Adran 6 yn ymwneud â'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth. Cadarnhaodd y Clerc fod yr adroddiad wedi'i ddarparu i Un Llais Cymru. Nodwyd.
19. **Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Nodwyd.
20. **Cylchgrawn Chwarae dros Gymru** – Nodwyd.
21. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
22. **Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
23. **Un Llais Cymru -** Nodiadau Datblygu Ymarfer - Cyfarfodydd Blynyddol. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad Arolygu Coed ar gyfer Cae Idole a Thir Gof. Roedd yr adroddiad wedi codi nifer o goed oedd angen gwaith arnynt neu i'w tynnu yn llwyr. Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod â'r Cyngor Sir, a oedd wedi cytuno i wneud gwaith ar y coed ar ochr y ffordd.

   Argymhellwyd tynnu rhai coed ar dir trydydd parti gerllaw Tir Gof. Cytunwyd taliad £480.00 a TAW i'r ARB Team.

   Derbyniwyd dyfynbrisiau ar gyfer pob gwaith gyda sgôr Lefel 1 neu Lefel 2 Uchel neu Lefel 1 neu Lefel 2 Canolog fel a ganlyn:

- **Arb Team** **£3,100.00 ynghyd â TAW**
- **Lampeter Tree Services** **£2,100.00 ynghyd â TAW**
- **DTS Tree Services** **Dim ymateb**
- **Howard Vater** **Methu â gwneud y gwaith.**

   Cytunwyd i symud ymlaen gyda'r tendr isaf a chysylltu â pherchennog y tir trydydd parti gerllaw Tir Gof i ofyn am ei cadarnhad y gallai'r gwaith yn y lleoliad hwn fynd yn ei flaen.

2. Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn yr Archwiliad Man Chwarae Blynyddol gan y Cwmni Archwilio Chwarae. Ni chodwyd unrhyw faterion uwchlaw risg isel. Bydd rhain yn cael eu trosglwyddo i'r Atgyweiriwr Cymunedol i ystyried y gwaith i'w gwblhau.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Hydref gyda chyfanswm cost o £644.00 yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Medi gyda chost o £322.00.

**9. Digwyddiadau Gymunedol 2025**

1. **Sul y Cofio**

Trafodwyd trefniadau ar gyfer Sul y Cofio ar gyfer Gwasanaeth yn Eglwys Llandyfaelog am 2yp ac yna gwasanaeth yn Nhir Gof.

Cytunwyd taliad o £28.50 am y Dorch Goffa.

**10. Cynllunio**

1. **PL/10038** - Annedd newydd arfaethedig i gynnwys estyniad i gwrtil gardd yr annedd a lleoli carafán dros dro am gyfnod y gwaith adeiladu (Ailgyflwyniad o PL/09725 wedi'i wrthod ar 08/09/2025) - Nant Yr Haul, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LX. Dim gwrthwynebiadau.

**11. Trefniadau Bancio a Thaliadau**
Roedd y Clerc wedi cwblhau'r broses i sefydlu'r Bancio Electronig ynghyd â'r Cynghorydd Shan Rees. Bydd y Cynghorwyr Rheinallt Jones a Janet Knott hefyd yn cwblhau'r broses. Yn y cyfamser, bydd taliadau mis Tachwedd yn cael eu gwneud yn electronig.

**12. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Cyngor Sir Gaerfyrddin – Apel Blwch Tegannau 2025 –** Cytunwyd rhodd o £150.00.
2. **Urdd Gobaith Cymru – Lleol –** Cytunwyd rhodd o £25.00.

**13. Cyfrifon**
**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| 1. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Hydref a costau** | **£775.54<br>£26.00** | **£19.80<br>£13.92<br>£8.99** | **£844.25** | **£310.00** | **£53.78** | **£534.25** |

2. **Michael Leefe** **£644.00** Torri gwair Hydref (gweler eitem 8)
3. **Michael Leefe** **£1,288.00** Atgyweiriwr Hydref (gweler eitem 8)
4. **ARB Team** **£576.00** Archwiliad Coed (gweler eitem 7) (£480.00 gyda taw £96)
5. **Arfon Davies** **£28.50** Torch Goffa (gweler eitem 9)
6. **Cynllun Blwch Tegannau Sir Gaerfyrddin** **£150.00** Rhodd (gweler eitem 12.1)
7. **Urdd Gobaith Cymru** **£25.00** Rhodd (gweler eitem 12.2)

**14. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
   **a**. Tipio Anghyfreithlon yn Nhir Gof.
2. Roedd Cinio Nadolig y Cyngor wedi cael ei trefnu ar gyfer 21ain Rhagfyr yn y Llew Coch.
3. Atgoffwyd aelodau byddai Ffair Nadolig y Neuadd yn cael ei chynnal ar 1af Rhagfyr.
4. Bydd y Clerc yn adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
   - **a.** Tyllau yn y ffordd rhwng Cilgadan a Bryncochbach.
   - **b.** Angen ysgubo Llandyfaelog a gwirio'r ffosydd yn y pentref, yn dilyn y tywydd gwael diweddar.
5. Nodwyd cynigion a oedd yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor Sir ynghylch prosiectau ynni.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 4ydd Rhagfyr 2025.**